**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol**

**Adroddiad: CA(3)-20-10: 15 Gorffennaf 2010**

Gellir gwylio'r cyfarfod hwn ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf;jsessionid=39AF76DD3BB6CC5208A7821BFCD7C80B

**Amser: 13.00**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd**

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**
Dai Lloyd, Gorllewin De Cymru (Cadeirydd dros dro)
Alun Davies, Canolbarth a Gorllewin Cymru
William Graham, Dwyrain De Cymru

Cafwyd ymddiheuriadau gan Janet Ryder AC, Cadeirydd y Pwyllgor. Dirprwyodd Dr Dai Lloyd ar ei rhan a chafodd ei ethol fel Cadeirydd dros dro o dan Reol Sefydlog 10.19 ar gyfer y cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau hefyd gan Kirsty Williams AC a Rhodri Morgan AC.

Mae'r Pwyllgor yn cyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad fel a ganlyn:

**Offerynnau na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reolau Sefydlog 15.2 a 15.3**

*Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)*

- **CA460 - Rheoliadau Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (Cyfansoddiad Timau a Swyddogaethau Byrddau) (Cymru) 2010**
  Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 24 Mehefin 2010. Fe'u gosodwyd ar 29 Mehefin 2010. Yn dod i rym ar 1 Medi 2010.

- **CA461 - Rheoliadau Dileu Atebolrwydd dros Fenthyciadau i Fyfyrwyr at Gostau Byw (Cymru) 2010**
  Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 26 Mehefin 2010. Fe'u gosodwyd ar 30 Mehefin 2010. Yn dod i rym ar 1 Awst 2010.

- **CA462 - Rheoliadau Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (Adolygu Achosion) (Cymru) 2010**
  Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 24 Mehefin 2010. Fe'u gosodwyd ar 29 Mehefin 2010. Yn dod i rym ar 1 Medi 2010.

- **CA464 - Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwyso) (Cymru) 2010**
  Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 30 Mehefin 2010. Fe'u

gosodwyd ar 2 Gorffennaf 2010.  Yn dod i rym ar 25 Gorffennaf 2010.

- **CA465 - Rheoliadau Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (Cyfnod Rhagnodedig a Swyddog Priodol) (Cymru) (Dirymu) 2010**
  Y weithdrefn negyddol.  Fe'u gwnaed ar 30 Mehefin 2010.  Fe'u gosodwyd ar 2 Gorffennaf 2010.  Yn dod i rym ar 25 Gorffennaf 2010.

**Offerynnau ac offerynnau drafft y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reolau Sefydlog 15.2 a/neu 15.3**

*Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)*

- **CA463 - Rheoliadau Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (Swyddogaethau Cymorth i Deuluoedd) (Cymru) 2010**
  Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 24 Mehefin 2010. Fe'u gosodwyd ar 29 Mehefin 2010. Yn dod i rym ar 1 Medi 2010.

Cytunodd y Pwyllgor fod pwyntiau technegol i adrodd arnynt o dan Reol Sefydlog 15.2. Ni nodwyd unrhyw bwyntiau y dylid trafod eu rhinweddau o dan Reol Sefydlog 15.3.  Mae'r adroddiad i'w gael yn Atodiad 1.

**Busnes arall**

Adolygiad o'r Rheolau Sefydlog - y Pwyllgorau: y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr ohebiaeth ynghylch adolygiad y Pwyllgor Busnes o'r Rheolau Sefydlog a phapur cysylltiedig gan Glerc y Pwyllgor. Rhoddodd y Pwyllgor gymeradwyaeth gyffredinol i bapur Clerc y Pwyllgor a chytunodd y dylai'r Cadeirydd ymateb ar ei ran.

**Gohebiaeth y Pwyllgor**

Nododd y Pwyllgor lythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor at y Dirprwy Weinidog dros Blant yn dilyn ei dystiolaeth ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2010

**Dr Dai Lloyd AC**
Cadeirydd Dros Dro, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol
15 Gorffennaf 2010

**Atodiad 1**

**Adroddiad drafft y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol**

**CA463**

**Teitl: Rheoliadau Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (Swyddogaethau Cymorth i Deuluoedd) (Cymru) 2010**

**Gweithdrefn:** Negyddol

Mae'r rheoliadau hyn yn nodi pa rai o swyddogaethau awdurdod lleol a swyddogaethau Bwrdd Iechyd Lleol sy'n "swyddogaethau cymorth i deuluoedd" at ddibenion adran 58 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ("y Mesur").

**Craffu Technegol**

O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn ar y sail ganlynol:

1. Mae'r Atodlen yn nodi pa rai o swyddogaethau awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol sydd i'w hystyried yn "swyddogaethau cymorth i deuluoedd" at ddibenion y Mesur. Mae Tablau 1, 3 a 4 yn cynnwys adran 82 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 sy'n darllen fel a ganlyn:

> In exercising their respective functions NHS bodies (on the one hand) and local authorities (on the other) must co-operate with one another in order to secure and advance the health and welfare of the people of England and Wales.

Mae'r geiriad yn awgrymu nad yw hon yn swyddogaeth ynddi'i hun, ond yn ddyletswydd i arfer swyddogaethau mewn ffordd arbennig. Ar sail hynny, ni ddylid cynnwys adran 82 yn yr Atodlen i'r Rheoliadau presennol fel swyddogaeth.

Os gellir dadlau, ar y llaw arall, nad yw adran 82 yn wir yn cynnwys swyddogaeth, ymddengys nad oes rheswm da pam na chaiff ei chynnwys hefyd yn Nhabl 2 o'r Atodlen fel swyddogaeth awdurdod lleol mewn perthynas ag oedolion.

[Rheol Sefydlog 15.2(vi). Bod y drafftio'n ymddangos yn wallus.]

**Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:**

Yr ydys o’r farn mai swyddogaeth yn ei rhinwedd ei hun yw a.82 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1982 (“a.82”).

Enwir pwerau cyffredinol a chysylltiedig Byrddau Iechyd Lleol ymhlith y swyddogaethau a ddynodir yn “swyddogaethau cymorth i deuluoedd” (e.e. adrannau 1 a 2 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006). Rhoddwyd ystyriaeth i'r cwestiwn a ddylid cynnwys hefyd, yn y tabl o swyddogaethau cymorth i deuluoedd, bwerau cyffredinol a chysylltiedig awdurdodau lleol (e.e. adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ac adran 111 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn ogystal ag adran 82 o Ddeddf y GIG 2006). Ar y sail bod Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd yn deillio o'r awdurdod lleol ac nad endid cyfreithiol ar wahân mohonynt, nid oeddem o'r farn bod angen gwneud hyn gan y byddai pwerau cyffredinol a chysylltiedig yr awdurdod lleol yn gymwys beth bynnag.

Er ei bod yn ymddangos yn sgil hyn fod anghysondeb rhwng y dull o nodi swyddogaethau awdurdodau lleol a'r dull o nodi swyddogaethau byrddau iechyd lleol, adlewyrchiad ydyw o'r rôl gyfreithiol sylfaenol sydd gan awdurdodau lleol yn y gwaith o sefydlu Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd.

Serch hynny, cydnabyddir mai gwall yw’r cyfeiriad at a.82 yn nhabl 1. Gosodir rheoliadau i gywiro’r gwall hwn ar ôl y toriad a chyn diwedd Medi 2010.

**Craffu ar rinweddau**

Nid yw’r Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i’r offeryn o dan Reol Sefydlog 15.3.

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol**
**Gorffennaf 2010**